



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5
Legislation Committee No. 5**

**Dydd Iau, 3 Rhagfyr 2009
Thursday, 3 December 2009**

**Cynnwys
Contents**

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 6 Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol
(Cymru)—Cyfnod 2: Ystyried Gwelliannau
Proposed Social Care Charges (Wales) Measure—Stage 2: Consideration of
Amendments
- 6 Gwasanaethau y Codir Ffi Amdanynt (Gwelliannau 1, 5, 7, 8, 9, 10, 14, 15, 28, 43,
44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53 a 54)
Chargeable Services (Amendments 1, 5, 7, 8, 9, 10, 14, 15, 28, 43, 44, 45, 46, 47, 48,
49, 50, 51, 52, 53 and 54)
- 9 Gwelliannau Technegol a Gwelliannau Drafftio (Gwelliannau 2, 3, 6, 11, 12, 13, 16,
17, 18, 19, 31, 32, 33, 34, 38, 58, 59 a 60)
Technical and Drafting Amendments (Amendments 2, 3, 6, 11, 12, 13, 16, 17, 18, 19,
31, 32, 33, 34, 38, 58, 59 and 60)
- 11 Asesiad Modd (Gwelliannau 4, 20, 21, 29, 30, 35, 36, 37, 55, 22, 23, 24, 25, 26 a 27)
Means Assessment (Amendments 4, 20, 21, 29, 30, 35, 36, 37, 55, 22, 23, 24, 25, 26
and 27)
- 16 Dyletswyddau Gweinidogion Cymru mewn Perthynas â Rheoliadau (Gwelliannau 62
a 67)
Welsh Ministers' Duties in Relation to Regulations (Amendments 62 and 67)
- 24 Y Weithdrefn ar gyfer Gwneud Is-ddeddfwriaeth (Gwelliannau 69, 70, 71, 61 a 57)
Procedure for Making Subordinate Legislation (Amendments 69, 70, 71, 61 and 57)
- 34 Gwybodaeth am Ffioedd (Gwelliannau 74, 72, 73, 64, 75 a 63)
Information about Charges (Amendments 74, 72, 73, 64, 75 and 63)
- 46 Adolygu Penderfyniadau ar Godi Ffioedd (Gwelliannau 39, 65, 40, 66, 41, 68 a 76)
Review of Charging Decisions (Amendments 39, 65, 40, 66, 41, 68 and 76)
- 64 Taliadau Uniongyrchol (Gwelliannau 42 a 56)
Direct Payments (Amendments 42 and 56)

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y cyfarfod.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the meeting. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Mick Bates	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Alun Davies	Llafur Labour
Lesley Griffiths	Llafur Labour
Mark Isherwood	Ceidwadwyr Cymreig (Cadeirydd y Pwyllgor) Welsh Conservatives (Committee Chair)
Darren Millar	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Leanne Wood	Plaid Cymru The Party of Wales

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Gareth Griffiths	Y Gyfarwyddiaeth Polisi Pobl Hŷn a Gofal Hirdymor, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru Older People and Long Term Care Policy Directorate, Health and Social Services Directorate General, Welsh Assembly Government
Amanda Jones	Cyfreithiwr, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru Lawyer, Directorate of Legal Services, Welsh Assembly Government
Gwenda Thomas	Aelod Cynulliad, Llafur (y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol) Assembly Member, Labour (the Deputy Minister for Social Services)

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Bethan Davies	Clerc Clerk
Lisa Salkeld	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Sarah Sargent	Deputy Clerc Dirprwy Glerc
Gareth Williams	Clerc Clerk

Dechreuodd y cyfarfod am 12.16 p.m.
The meeting began at 12.16 p.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **Mark Isherwood:** Prynawn da, **Mark Isherwood:** Good afternoon,

good afternoon, and welcome to Members and guests. We have not received any apologies and there are no substitutions. I welcome the Deputy Minister for Social Services, Gwenda Thomas, and Gareth Griffiths and Amanda Jones, officials from the Welsh Assembly Government.

[2] I will briefly cover the housekeeping matters. In the event of a fire alarm, Members should leave by the marked fire exit and follow instructions from the ushers and staff. No test is forecast for today. All mobile phones, pagers and BlackBerrys should be switched off as they interfere with broadcasting equipment. The National Assembly for Wales operates through the media of Welsh and English, and headphones are provided through which instantaneous translation may be received. For any who are hard of hearing, these may also be used to amplify sound. Interpretation is available on channel 1, and amplification on channel 0. Please do not touch the buttons on the microphones, as this can disable the system; you should ensure that the red light is showing before speaking.

[3] Members should have before them a copy of the proposed Measure, the marshalled list of amendments and the groupings of amendments for debate. Do you all have those papers available? I see that you do.

[4] The marshalled list of amendments is the list of all amendments that were tabled, placed in the order in which the related sections fall in the proposed Measure. For the purpose of this meeting, we will consider amendments in order from section 1 to section 12, and then new sections. You will see from the groupings list that amendments have been grouped to facilitate debate, but the order in which they are called and moved to a decision is dictated by the marshalled list. Members will need to follow both papers, but I will advise Members, when I call them to speak, whether they are to speak in the debate or to move an amendment for decision. There will be one debate on each group of amendments. I will call the proposer of the first amendment in the group to speak to and move the first amendment and to speak to the others in the group. I will then

prynhawn da, a chroeso i Aelodau a gwesteion. Nid oes ymddiheuriadau wedi dod i law ac nid oes dirprwyon. Croesawaf y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, a Gareth Griffiths ac Amanda Jones, swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Ymdriniaf yn fyr â'r materion cadw tŷ. Os clywir larwm tân, dylai'r Aelodau adael drwy'r allanfa dân sydd wedi'i nodi a dilyn cyfarwyddiadau'r tywyswyr a'r staff. Nid oes prawf i fod i gael ei gynnal heddiw. Dylid diffodd pob ffôn symudol, galwr a BlackBerry gan eu bod yn tarfu ar y cyfarpar darlledu. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a darperir clustffonau y mae modd derbyn cyfieithiad ar y pryd drwyddynt. I'r sawl sy'n drwm ei glyw, gellid defnyddio'r rhain hefyd i chwyddo'r sain. Mae'r cyfieithu ar gael ar sianel 1, a'r chwyddo sain ar sianel 0. Peidiwch â chyffwrdd â'r botymau ar y microffonau, gan fod hynny'n gallu analluogi'r system; dylech wneud yn siŵr fod y golau coch ymlaen cyn siarad.

O'u blaenau dylai fod gan yr Aelodau gopi o'r Mesur arfaethedig, y rhestr o welliannau wedi'u didoli a'r grwpiau o welliannau i'w trafod. A yw'r holl bapurau hynny ar gael ichi? Gwelaf eu bod.

Y rhestr o welliannau wedi'u didoli yw'r rhestr o'r holl welliannau a gyflwynwyd, wedi'u gosod yn y drefn y mae'r adrannau perthnasol yn dod ynddi yn y Mesur arfaethedig. At bwrrpas y cyfarfod hwn, byddwn yn ystyried y gwelliannau yn eu trefn o adran 1 i adran 12, ac yna adrannau newydd. Fe welwch o'r rhestr grwpiau fod y gwelliannau wedi cael eu grwpio i hwyluso trafodaeth, ond y rhestr o welliannau wedi'u didoli sy'n pennu ym mha drefn y cânt eu galw ac y symudir i benderfyniad. Bydd angen i'r Aelodau ddilyn y naill bapur a'r llall, ond byddaf yn dweud wrth yr Aelodau, wrth eu galw i siarad, a ydynt i siarad yn y ddadl ynteu i gynnig gwelliant er mwyn penderfynu. Ceir un ddadl ar bob grŵp o welliannau. Byddaf yn galw cynigydd y gwelliant cyntaf yn y grŵp i siarad am y gwelliant cyntaf a'i gynnig, ac i siarad am y

call other speakers, including any other proposers of amendments in that group, but they should not move their amendments at that stage. Members who do not have an amendment in the group, but who wish to speak, should indicate their wish to speak at that point in the usual way. I will call the Minister to speak on each group and, to conclude each debate, I will call the proposer of the first amendment in the group to wind up.

[5] Following the debate on a group, I will clarify whether the Member who moved the first amendment still wishes to press it to a decision. If not, he or she may seek the agreement of the committee to withdraw it. If it is not withdrawn, I will put the question on the first amendment in the group. It is my intention that all votes are recorded so that the names of those voting for, against or abstaining will be recorded in the minutes. I will call the proposers of other amendments in the group to move their amendments at the appropriate time in accordance with the marshalled list. If you do not wish to move the amendment, you should say so clearly when the amendment is called. For the record, only committee members can move amendments. Members will wish to be aware that, in line with the convention for the operation of legislation committees, I, as Chair, will move the amendments in the name of the Deputy Minister. Members will be aware that the only way to debate a section of the proposed Measure is to have tabled an amendment to it.

[6] Any sections that do not have amendments tabled to them will be deemed agreed, as will any sections where tabled amendments are not agreed to. I will announce which sections have been agreed at the end of the day's meeting. For any sections that are not disposed of today, there will be a further opportunity to table amendments to those sections. In order to be considered at next week's meeting, should it be necessary, amendments would need to be tabled by 5 p.m. today. Do you have any questions? I see that no-one does.

gwelliannau eraill yn y grŵp. Wedyn byddaf yn galw siaradwyr eraill, yn cynnwys unrhyw gynigwyr gwelliannau eraill yn y grŵp hwnnw, ond ni ddylent hwy gynnig eu gwelliannau bryd hynny. Dylai Aelodau nad oes ganddynt welliant yn y grŵp, ond sy'n dymuno siarad, ddangos bryd hynny yn y ffordd arferol eu bod yn dymuno siarad. Byddaf yn galw'r Gweinidog i siarad am bob grŵp ac, i ddod â phob dadl i ben, byddaf yn galw cynigydd y gwelliant cyntaf yn y grŵp i ddirwyn y dadl i ben.

Yn dilyn y ddadl ar grŵp, byddaf yn canfod yn glir a yw'r Aelod a gynigiodd y gwelliant cyntaf yn dal i ddymuno symud ymlaen i benderfyniad. Os nad yw, gall ef neu hi geisio cytundeb y pwyllgor i'w dynnu'n ôl. Os na chaiff ei dynnu'n ôl, byddaf yn gofyn y cwestiwn ar y gwelliant cyntaf yn y grŵp. Fy mwriad yw y bydd pob pleidlais yn cael ei chofnodi fel y bydd enwau'r rhai sy'n pleidleisio o blaid, yn erbyn neu'n ymatal yn cael eu cofnodi yn y cofnodion. Byddaf yn galw cynigwyr y gwelliannau eraill yn y grŵp i gynnig eu gwelliannau hwythau ar yr adeg briodol yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli. Os nad ydych yn dymuno cynnig y gwelliant, dylech ddweud hynny'n glir pan gaiff y gwelliant ei alw. I'ch atgoffa, dim ond aelodau o'r pwyllgor a gaiff gynnig gwelliannau. Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol y byddaf fi, fel y Cadeirydd, yn unol â chonfensiwn gweithredu'r pwyllgorau deddfwriaeth, yn cynnig y gwelliannau yn enw'r Dirprwy Weinidog. Bydd yr Aelodau'n gwybod mai'r unig ffordd o drafod adran o'r Mesur arfaethedig yw drwy fod wedi cyflwyno gwelliant iddi.

Byddir yn cymryd ein bod yn cytuno ag unrhyw adrannau nad oes gwelliannau wedi cael eu cyflwyno iddynt, ac felly hefyd unrhyw adrannau lle na chytunir â'r gwelliannau a gyflwynwyd. Byddaf yn cyhoeddi ar ddiwedd y cyfarfod heddiw pa adrannau y cytunwyd arnynt. O ran unrhyw adrannau na chânt eu gwaredu heddiw, bydd cyfle pellach i gyflwyno gwelliannau i'r adrannau hynny. Er mwyn iddynt gael eu hystyried yng nghyfarfod yr wythnos nesaf, pe bai rhaid wrth hwnnw, byddai angen i welliannau gael eu cyflwyno erbyn 5 p.m. heddiw. A oes gennych unrhyw gwestiynau? Gwelaf nad oes.

12.20 p.m.

**Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru)—Cyfnod 2: Ystyried Gwelliannau
Proposed Social Care Charges (Wales) Measure—Stage 2: Consideration of Amendments**

Gwasanaethau y Codir Ffi Amdanynt (Gwelliannau 1, 5, 7, 8, 9, 10, 14, 15, 28, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53 a 54)

Chargeable Services (Amendments 1, 5, 7, 8, 9, 10, 14, 15, 28, 43, 44, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51, 52, 53 and 54)

[7] **Mark Isherwood:** The lead amendment in this group is amendment 1. Deputy Minister, would you like amendment 1 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 1. Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 1 yn eich enw chi gael ei gynnig?

[8] **The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** Yes, please.

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Ydwyf, os gwelwch yn dda.

[9] **Mark Isherwood:** I move amendment 1 in the name of Gwenda Thomas, and call on the Deputy Minister to speak to the amendment and others in the group.

Mark Isherwood: Cynigiau welliant 1 yn enw Gwenda Thomas, a galwaf ar y Dirprwy Weinidog i siarad ar y gwelliant ac eraill yn y grŵp.

[10] **Gwenda Thomas:** This group of amendments contains a range of drafting improvements to better define the service to which this proposed Measure relates, to make consequential changes to the proposed Measure arising from those drafting improvements, and to make consequential changes to other legislation arising from the amended provision of the proposed Measure. Amendment 1 is merely a drafting improvement that removes the reference to the general rule as set out in section 1 of the proposed Measure, and makes use of the term 'chargeable service' as introduced by amendment 43. Amendments 5, 7, 8, 9, 10, 14, 15 and 28 are consequential amendments, which also utilise the term 'chargeable service' in section 2(1), 2(3)(a), 2(3)(b), 2(3)(c), 3(1) and 5(1)(a) of the proposed Measure. As such, these amendments do not alter the legal effect of the existing provision in those sections.

Gwenda Thomas: Mae'r grŵp hwn o welliannau'n cynnwys amryw o welliannau drafftio er mwyn diffinio'n well y gwasanaeth y mae a wnelo'r Mesur arfaethedig hwn ag ef, gwneud newidiadau canlyniadol i'r Mesur arfaethedig yn deillio o'r gwelliannau drafftio hynny, a gwneud newidiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall sy'n deillio o'r ddarpariaeth ddiwygiedig yn y Mesur arfaethedig. Nid yw gwelliant 1 ond gwelliant drafftio sy'n dileu'r cyfeiriad at y rheol gyffredinol fel y'i nodwyd yn adran 1 o'r Mesur arfaethedig, ac mae'n defnyddio'r term 'gwasanaethau y codir ffi amdanynt' fel y'i cyflwynwyd gan welliant 43. Mae gwelliannau 5, 7, 8, 9, 10, 14, 15 a 28 yn welliannau canlyniadol, sydd hefyd yn defnyddio'r term 'y codir ffi amdanynt' yn adran 2(1), 2(3)(a), 2(3)(b), 2(3)(c), 3(1) a 5(1)(a) o'r Mesur arfaethedig. Fel y cyfryw, nid yw'r gwelliannau hyn yn newid effaith gyfreithiol y ddarpariaeth bresennol yn yr adrannau hynny.

[11] Do you want me to go through the whole list, or shall I stop?

A ydych am i mi fynd drwy'r rhestr gyfan, neu ymhle y dylwn i stopio?

[12] **Mark Isherwood:** You are speaking to everything in the group.

Mark Isherwood: Yr ydych yn siarad am bopeth yn y grŵp

[13] **Gwenda Thomas:** All of the amendments in the group?

Gwenda Thomas: Yr holl welliannau yn y grŵp?

[14] **Mark Isherwood:** In group 1, yes.

Mark Isherwood: Yng ngrŵp 1, ie.

[15] **Gwenda Thomas:** Amendment 43 defines a 'chargeable service' as one falling within subsection (2) of section 7. Section 7(2) then lists the chargeable services by reference to the enactments under which they are provided. Amendment 44 is consequential upon amendment 43, and replaces the word 'enactments' with 'services'. Amendments 45, 47, 48, 49 and 51 are further consequential amendments that insert the words 'a service provided under' in front of each of the enactments currently listed in section 7(2). Amendment 50 is simply a drafting improvement in section 7(2)(d). None of these amendments alter the legal effect of the provisions of those sections.

Gwenda Thomas: Mae gwelliant 43 yn diffinio 'gwasanaeth y codir ffi amdano' fel un sy'n dod o fewn is-adran (2) o adran 7. Mae adran 7(2) wedyn yn rhestru'r gwasanaethau y codir ffi amdanynt drwy gyfeirio at y deddfiadau y darperir hwy oddi tanynt. Mae gwelliant 44 yn deillio o welliant 43, ac yn disodli'r gair 'deddfiadau' gyda 'gwasanaethau'. Mae gwelliannau 45, 47, 48, 49 a 51 yn welliannau canlyniadol pellach sy'n ychwanegu'r geiriau 'gwasanaeth a ddarperir o dan' o flaen pob un o'r deddfiadau sydd wedi'u rhestru ar hyn o bryd yn adran 7(2). Nid yw gwelliant 50 yn ddim ond gwelliant drafftio yn adran 7(2)(d). Nid oes yr un o'r gwelliannau hyn yn newid effaith gyfreithiol darpariaethau'r adrannau hynny.

[16] I now turn to amendments 46 and 52. As the proposed Measure is intended to cover only non-residential services, residential services are excluded from its scope. This is currently provided for by section 7(1), which states that the proposed Measure applies to a service provided under the enactments listed in subsection (2), unless the service is provided in the form of residential care. However, not all of the enactments listed in subsection (2) enable the provision of residential care services. In order to clarify the position, amendment 43 removes this general proviso in subsection 1, and applies the exclusion to the specific enactments where relevant.

Trof yn awr at welliannau 46 a 52. Gan fod y Mesur arfaethedig wedi'i fwriadu i ymdrin â gwasanaethau dibreswyl yn unig, caiff gwasanaethau preswyl eu heithrio o'i gwmpas. Darperir ar gyfer hyn ar hyn o bryd yn adran 7(1), sy'n datgan bod a wnelo'r Mesur arfaethedig â gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu o dan y deddfiadau a restrir yn is-adran (2), oni bai fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar ffurf gofal preswyl. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddeddfiadau a restrir yn is-adran (2) yn galluogi darparu gwasanaethau gofal preswyl. Er mwyn egluro'r sefyllfa, mae gwelliant 43 yn dileu'r amod cyffredinol hwn yn isadran 1, ac yn cymhwyso'r eithriad i'r deddfiadau penodol lle mae'n berthnasol.

[17] Amendment 46 provides that a chargeable service shall not include services provided under section 29 of the National Assistance Act 1948, for which payment may be required under section 22 or 26. This does not alter the legal effect of the existing provision. Amendment 52 provides that a chargeable service shall not include service provided under section 2 of the Carers and Disabled Children Act 2000 that are provided

Yn ôl gwelliant 46, ni fydd gwasanaeth y codi ffi amdano yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, y gall taliad fod yn ofynnol amdanynt o dan adran 22 neu 26. Nid yw hyn yn newid effaith gyfreithiol y ddarpariaeth bresennol. Yn ôl gwelliant 52, ni fydd gwasanaeth y codi ffi amdano yn cynnwys gwasanaeth a ddarperir o dan adran 2 o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000

in the form of residential care. Once again, this does not alter the legal effect of the existing provision. Amendment 53 takes on board the committee's concerns on the need for future flexibility in defining the list of services to which the proposed Measure applies, as set out in section 7(2). It enables Welsh Ministers by Order to add to, amend or remove services from this list in order to reflect future changes to the statutory framework for social services.

sy'n cael eu darparu ar ffurf gofal preswyl. Eto, nid yw hyn yn newid effaith gyfreithiol y ddarpariaeth bresennol. Mae gwelliant 53 yn adlewyrchu pryderon y pwyllgor ynglŷn â'r angen am hyblygrwydd yn y dyfodol wrth ddiffinio'r rhestr o wasanaethau y mae'r Mesur arfaethedig yn gymwys iddynt, fel y nodir yn adran 7(2). Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru drwy Orchymyn i ychwanegu at, diwygio neu ddileu gwasanaethau oddi ar y rhestr hon er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r fframwaith gwasanaethau cymdeithasol statudol yn y dyfodol.

[18] Lastly, amendment 54 is a drafting improvement linked to amendment 43, 46 and 52. It makes it clear that, in relation to Wales, section 17 of the Health and Social Services and Social Security Adjudications Act 1983 will continue to apply only to services provided under section 2 of the Carers and Disabled Children Act 2000 in the form of residential care.

Yn olaf, gwelliant drafftio i welliannau 43, 46 a 52 yw gwelliant 54. Mae'n ei gwneud yn glir, yng nghyswllt Cymru, na fydd adran 17 o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 ond yn parhau i fod yn gymwys i wasanaethau sy'n cael eu darparu o dan adran 2 o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 ar ffurf gofal preswyl.

[19] **Mark Isherwood:** Could Members indicate whether any of you wish to speak to the first group of amendments? I see that no-one does. I would call on the Deputy Minister to reply to the debate, but, as there has been no debate, I will ask whether you wish to add any further comments.

Mark Isherwood: A wnaiff yr Aelodau ddangos a oes unrhyw rai ohonoch yn dymuno siarad am y grŵp cyntaf o welliannau? Gwelaf nad oes neb. Byddwn yn galw ar y Dirprwy Weinidog i ymateb i'r ddadl, ond, gan na fu dadl, gofynnaf a ydych am ychwanegu unrhyw sylwadau pellach.

[20] **Gwenda Thomas:** No.

Gwenda Thomas: Nac ydwyf.

[21] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, do you wish to proceed to a vote on amendment 1 in your name?

Mark Isherwood: Ddirprwy Weinidog, a ydych yn dymuno symud i bleidlais ar welliant 1 yn eich enw chi?

[22] **Gwenda Thomas:** Yes.

Gwenda Thomas: Ydwyf.

[23] **Mark Isherwood:** The question is that amendment 1 be agreed to. I remind Members to keep their hands raised to allow the clerks to record the vote. Clerks will record the vote on a voting record sheet and hand it to me to announce the result. I therefore call for a vote.

Mark Isherwood: Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 1. Atgoffaf yr Aelodau i gadw eu dwylo i fyny er mwyn i'r clercod allu cofnodi'r bleidlais. Bydd y clercod yn cofnodi'r bleidlais ar ddalen cofnodi pleidlais ac yn ei rhoi i mi er mwyn imi gyhoeddi'r canlyniad. Galwaf felly am bleidlais.

Gwelliant 1: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.

Amendment 1: For 5, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun

Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

Derbyniwyd gwelliant 1.
Amendment 1 agreed.

[24] **Mark Isherwood:** There will not be a vote on the other amendments in the group at this point—we will return to those later in the proceedings in accordance with the marshalled list.

Mark Isherwood: Ni fydd pleidlais ar y gwelliannau eraill yn y grŵp ar hyn o bryd—byddwn yn dychwelyd at y rheini'n ddiweddarach yn unol â'r rhestr wedi'i didoli.

12.27 p.m.

Gwelliannau Technegol a Gwelliannau Drafftio (Gwelliannau 2, 3, 6, 11, 12, 13, 16, 17, 18, 19, 31, 32, 33, 34, 38, 58, 59 a 60
Technical and Drafting Amendments (Amendments 2, 3, 6, 11, 12, 13, 16, 17, 18, 19, 31, 32, 33, 34, 38, 58, 59 and 60)

[25] **Mark Isherwood:** The lead amendment in this group is amendment 2. Deputy Minister, would you like amendment 2 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 2. Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 2 yn eich enw chi gael ei gynnig?

[26] **Gwenda Thomas:** Yes.

Gwenda Thomas: Ydwyf.

[27] **Mark Isherwood:** I move amendment 2 in the name of Gwenda Thomas, and call on the Deputy Minister to speak to the amendment and others in the group.

Mark Isherwood: Cynigiau welliant 2 yn enw Gwenda Thomas, a galwaf ar y Dirprwy Weinidog i siarad am y gwelliant hwn ac eraill yn y grŵp.

[28] **Gwenda Thomas:** This group of amendments relates purely to technical and drafting matters, many of which are consequential upon each other, or upon the amendments to the proposed Measure. Amendments 2, 3, 6, 11 and 12 make drafting improvements to sections 1 and 2 of the proposed Measure. Amendments 13, 16, 17, 18 and 19 relate to section 3, which deals with persons and services in respect of which charges must not be imposed. Amendment 13 is a drafting improvement that replaces the reference to regulations specifying the categories of persons and services, or combination of services, in respect of which a charge must not be imposed, with a reference to regulations that make provision specifying those categories. Amendments 16 to 19 are consequential upon amendment 13. Amendments 31, 32, 33, 34 and 38 relate to section 5, which requires local authorities to provide information to those who receive, or

Gwenda Thomas: Mae a wnelo'r grŵp hwn o welliannau yn llwyr â materion technegol a drafftio, ac mae llawer ohonynt yn effeithio ar ei gilydd, neu ar y gwelliannau i'r Mesur arfaethedig. Mae gwelliannau 2, 3, 6, 11 a 12 yn gwneud gwelliannau drafftio i adrannau 1 a 2 o'r Mesur arfaethedig. Mae a wnelo adrannau 13, 16, 17, 18 a 19 ag adran 3, sy'n delio â phobl a gwasanaethau na chaniateir codi ffioedd mewn perthynas â nhw. Gwelliant drafftio yw gwelliant 13 sy'n disodli'r cyfeiriad at reoliadau sy'n pennu'r categorïau o bobl a gwasanaethau, neu gyfuniad o wasanaethau, na chaniateir codi ffi mewn perthynas â nhw, gyda chyfeiriad at reoliadau sy'n gwneud darpariaeth yn pennu'r categorïau hynny. Mae gwelliannau 16 i 19 yn effeithio ar welliant 13. Mae a wnelo gwelliannau 31, 32, 33, 34 a 38 ag adran 5, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth i'r rhai sy'n derbyn, neu a allai dderbyn

may receive a service, and to those whom they decide to charge.

[29] Amendment 31 merely corrects a drafting error, while amendments 32 and 38 are drafting improvements linked to amendment 27, which enables a local authority to replace a determination of ability to pay with a new determination where certain conditions are met. Amendments 33 and 34 are also drafting improvements; and amendments 58, 59 and 60 are drafting improvements relating to section 11.

12.30 p.m.

[30] **Mark Isherwood:** Thank you. Could Members indicate whether they wish to speak on this group of amendments? I see that no-one does. Therefore, Deputy Minister, do you wish to proceed to a vote on amendment 2?

[31] **Gwenda Thomas:** Yes.

[32] **Mark Isherwood:** The question is that amendment 2 be agreed to. I call for a vote.

*Gwelliant 2: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 2: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 2.
Amendment 2 agreed.*

[33] **Mark Isherwood:** In accordance with the marshalled list, we now come to dispose of amendment 3 in the name of Gwenda Thomas, which was debated in group 2. Deputy Minister, would you like amendment 3 in your name to be moved?

[34] **Gwenda Thomas:** Yes, please.

[35] **Mark Isherwood:** I move amendment 3 in the name of Gwenda Thomas.

gwasanaeth, ac i'r rhai y byddant yn penderfynu codi ffi arnynt.

Nid yw gwelliant 31 ond yn cywiro camgymeriad drafftio, tra mae gwelliannau 32 a 38 yn welliannau drafftio yn gysylltiedig â gwelliant 27, sy'n galluogi awdurdod lleol i ddisodli penderfyniad am y gallu i dalu gyda phenderfyniad newydd lle caiff amodau penodol eu bodloni. Gwelliannau drafftio yw gwelliannau 33 a 34 hefyd, a gwelliannau drafftio mewn perthynas ag adran 11 yw gwelliannau 58, 59 a 60.

Mark Isherwood: Diolch. A wnaiff yr Aelodau ddangos a ydynt am siarad am y grŵp hwn o welliannau? Gwelaf nad oes neb am siarad. Felly, Ddirprwy Weinidog, a ydych am symud i bleidlais ar welliant 2?

Gwenda Thomas: Ydwyf.

Mark Isherwood: Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 2. Galwaf am bleidlais.

Mark Isherwood: Yn unol â'r rhestr wedi'i didoli, down yn awr i waredu gwelliant 3 yn enw Gwenda Thomas, a drafodwyd yng ngrŵp 2. Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 3 yn eich enw chi gael ei gynnig?

Gwenda Thomas: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

Mark Isherwood: Cynigiau welliant 3 yn enw Gwenda Thomas.

[36] The question is that amendment 3 be agreed to. I call for a vote. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 3. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 3: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 3: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 3.
Amendment 3 agreed.*

[37] **Mark Isherwood:** There will not be a vote on the other amendments in group 2 at this point. We will return to vote on these later in the proceedings, in accordance with the marshalled list. **Mark Isherwood:** Ni fydd pleidlais ar y gwelliannau eraill yng ngrŵp 2 ar hyn o bryd—byddwn yn dychwelyd at y rheini'n ddiweddarach yn unol â'r rhestr wedi'i didoli.

12.31 p.m.

**Asesiad Modd (Gwelliannau 4, 20, 21, 29, 30, 35, 36, 37, 55, 22, 23, 24, 25, 26 a 27)
Means Assessment (Amendments 4, 20, 21, 29, 30, 35, 36, 37, 55, 22, 23, 24, 25, 26 and 27)**

[38] **Mark Isherwood:** The next grouping of amendments to consider is in relation to means assessment. The lead amendment is amendment 4 in the name of Gwenda Thomas. Deputy Minister, would you like amendment 4 in your name to be moved? **Mark Isherwood:** Mae a wnelo'r grŵp nesaf o welliannau i'w hystyried ag asesiad modd. Y prif welliant yw gwelliant 4 yn enw Gwenda Thomas. Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 4 yn eich enw chi gael ei gynnig?

[39] **Gwenda Thomas:** Yes, Chair. **Gwenda Thomas:** Ydwyf, Gadeirydd.

[40] **Mark Isherwood:** I move amendment 4 in the name of Gwenda Thomas. I call on the Deputy Minister to speak to amendment 4 and the other amendments in the group. **Mark Isherwood:** Cynigiau welliant 4 yn enw Gwenda Thomas. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i siarad am welliant 4 a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

[41] **Gwenda Thomas:** I will deal first with amendments 21 to 27 as I consider them to be the most significant amendments in this group. As you may be aware, under the current charging regime set out in the Health and Social Services and Social Security Adjudications Act 1983, a local authority must not require a service user to pay more than it is reasonably practicable for them to **Gwenda Thomas:** Deliaf yn gyntaf â gwelliannau 21 i 27 gan fy mod o'r farn mai nhw yw'r gwelliannau mwyaf arwyddocaol yn y grŵp hwn. Fel y gwyddoch efallai, o dan y gyfundrefn codi ffioedd bresennol a nodwyd yn Neddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983, ni chaiff awdurdod lleol fynnu bod defnyddiwr gwasanaethau'n talu

pay. Consequently, while there is no express duty to carry out a means assessment, as part of its assessment process, a local authority will usually consider the person's financial situation and his or her ability, or otherwise, to contribute to the cost of the care services provided. However, there is no express right for a service user to request a means test, nor an express obligation on local authorities to undertake one. The arrangements for means testing for non-residential social care are currently set out in guidance issued under section 7 of the Local Authority Social Services Act 1970.

[42] The means testing provisions in section 4, which existed upon introduction, changed this by giving service users an express right to request a means test and by placing an obligation on local authorities to undertake one. The intention is that we should move from a position in which a local authority is enabled to carry out a means test when assessing the ability of an individual or a couple to pay to one where people will have a right to request a means test.

[43] Since introduction, we have given further consideration to means testing. This, and issues raised during scrutiny, have resulted in a number of new sections, which replace entirely the existing section 4. The existing section 4 is removed by amendment 21 and the new sections, provided for by amendments 22 to 27, include detailed provisions as to how the new means assessment process will work. Amendment 22 inserts a new section into the proposed Measure; it deals with invitations to request a means assessment. Its purpose is to give service users a clear right to opt in or out of means testing and to create an express right to request a means test. It places a duty on local authorities to invite a prospective service user to request a means assessment when it offers a service or, if this is not possible, to issue an invitation as soon as reasonably practicable thereafter.

[44] Amendment 22 also places an obligation on a local authority to issue an

mwy nag sy'n rhesymol iddo ei dalu. O ganlyniad, er nad oes dyletswydd benodol i gynnal asesiad modd, fel rhan o'i broses asesu, bydd awdurdod lleol fel arfer yn ystyried sefyllfa ariannol y person a'i allu ef neu ei gallu hi, neu fel arall, i gyfrannu at gost y gwasanaethau gofal a ddarperir. Fodd bynnag, nid oes hawl benodol gan ddefnyddwyr gwasanaethau i ofyn am brawf modd, na dyletswydd benodol ar awdurdodau lleol i gynnal un. Mae'r trefniadau o ran profion modd am ofal cymdeithasol dibreswyl wedi'u nodi ar hyn o bryd mewn canllawiau a roddwyd o dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

Roedd y darpariaethau profi modd yn adran 4, a oedd yn bodoli pan gyflwynwyd hyn, yn newid hyn drwy roi hawl benodol i ddefnyddwyr gwasanaethau i ofyn am brawf modd a thrwy roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymgymryd â phrawf. Y bwriad yw y dylem symud o sefyllfa lle mae gan awdurdod lleol hawl i gynnal prawf modd wrth asesu gallu unigolyn neu gwpl i dalu i un lle bydd gan bobl hawl i ofyn am brawf modd.

Ers cyflwyno hyn, rydym wedi rhoi ystyriaeth bellach i brofi modd. Mae hyn, a materion a godwyd yn ystod y craffu, wedi arwain at nifer o adrannau newydd, sy'n llwyr ddisodli'r adran 4 bresennol. Caiff yr adran 4 bresennol ei dileu gan welliant 21 ac mae'r adrannau newydd, y darperir ar eu cyfer gan welliannau 22 i 27, yn cynnwys darpariaethau manwl ynglŷn â sut y bydd y broses asesu modd newydd yn gweithio. Mae gwelliant 22 yn ychwanegu adran newydd i'r Mesur arfaethedig; mae'n delio â gwahoddiadau i ofyn am asesiad modd. Ei ddiben yw rhoi hawl glir i ddefnyddwyr gwasanaethau i ddewis cael neu beidio â chael prawf modd a chreu hawl benodol i ofyn am brawf modd. Mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wahodd darpar ddefnyddiwr gwasanaethau i ofyn am asesiad modd pan fydd yn cynnig gwasanaeth neu, os nad yw hyn yn bosibl, i roi gwahoddiad cyn gynted ag sy'n ymarferol yn rhesymol wedi hynny.

Mae gwelliant 22 hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i roi gwahoddiad i

invitation to existing service users in such cases as may be specified in regulations.

[45] While it would not be appropriate as a result of the proposed Measure to require an invite to be given to all existing service users, there may be certain situations where, for example, there might have been a change in the service user's circumstances. The amendment also gives the Welsh Ministers the power to set out in regulations the form and content of invitations and the manner in which they are to be made.

[46] The purpose of amendment 23 is to place an express obligation on local authorities, where certain conditions are met, to undertake an assessment of a person's financial means. It also enables Welsh Ministers to make regulations as to how means assessment must be carried out.

[47] Amendment 24 inserts a new section into the proposed Measure that sets out the conditions referred to in amendment 23, which give rise to the duty to carry out a means assessment. It also gives the Welsh Ministers the power to make provision in regulations as to who may make the request for a means assessment or provide any necessary financial information on behalf of the service user. That could be a carer or an independent advocate, for example.

[48] Amendment 25 inserts a new section into the proposed Measure, and makes provision as to how determinations as to a person's ability to pay should be made. It requires a local authority to determine, in light of the means assessment, where one is carried out, whether it is reasonably practicable for the service user to pay the standard charge, and, if not, what, if anything, it would be reasonably practicable for the service user to pay. In determining what would be reasonably practicable for a service user to pay, the local authority must act in accordance with provision in regulations made by Welsh Ministers. Such regulations may include provisions specifying amounts that the local authority must disregard when assessing a person's means, and amounts below which a person's

ddefnyddwyr gwasanaethau presennol yn yr achosion y caniateir eu pennu mewn rheoliadau.

Er na fyddai'n briodol o ganlyniad i'r Mesur arfaethedig mynnu bod gwahoddiad yn cael ei roi i bob defnyddiwr gwasanaethau presennol, gallai fod sefyllfaoedd lle, er enghraifft, y bu newid yn amgylchiadau'r defnyddiwr gwasanaethau. Mae'r gwelliant hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i nodi mewn rheoliadau ffurf a chynnwys gwahoddiadau a thrwy ba ddull y mae'r gwahoddiadau hynny i gael eu rhoi.

Pwrpas gwelliant 23 yw rhoi dyletswydd benodol ar awdurdodau lleol, lle caiff amodau penodol eu bodloni, i gynnal asesiad o fodd ariannol person. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn â sut mae rhaid ymgymryd ag asesiad modd.

Mae gwelliant 24 yn ychwanegu adran newydd i'r Mesur arfaethedig sy'n nodi'r amodau y cyfeirir atynt yng ngwelliant 23, sy'n arwain at y ddyletswydd i gynnal asesiad modd. Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu drwy reoliadau pwy a gaiff wneud y cais am asesiad modd neu ddarparu unrhyw wybodaeth ariannol angenrheidiol ar ran y defnyddiwr gwasanaethau. Gallai hwnnw fod yn ofalwr neu'n eiriolwr annibynnol, er enghraifft.

Mae gwelliant 25 yn ychwanegu adran newydd i'r Mesur arfaethedig, ac yn darparu ar gyfer sut y dylai penderfyniadau ynglŷn â gallu person i dalu gael eu gwneud. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu, yng ngoleuni'r asesiad modd, lle caiff un ei gynnal, a yw'n rhesymol ymarferol i'r defnyddiwr gwasanaethau dalu'r ffi safonol, ac, os nad yw, beth y byddai'n rhesymol ymarferol (os oes rhywbeth) i'r defnyddiwr gwasanaethau ei dalu. Wrth benderfynu beth fyddai'n rhesymol ymarferol i ddefnyddiwr gwasanaethau ei dalu, rhaid i'r awdurdod lleol weithredu yn unol â darpariaeth mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Gall rheoliadau o'r fath gynnwys darpariaethau sy'n pennu symiau y mae rhaid i'r awdurdod lleol eu diystyru wrth asesu

income cannot be reduced after charging, referred to before as an 'income buffer'.

modd person, a symiau na chaniateir gostwng incwm person islaw iddynt ar ôl codi ffi, rhywbeth y cyfeiriwyd ato cyn hyn fel 'clustog incwm'.

[49] Amendment 25 also defines 'standard charge' as the amount that a person would be required to pay for a service if no determination under the proposed Measure as to the person's ability to pay had effect.

Mae gwelliant 25 hefyd yn diffinio 'ffi safonol' fel y swm y byddai gofyn i berson ei dalu am wasanaeth pe na bai effaith i benderfyniad o dan y Mesur arfaethedig yn ymwneud â gallu'r person i dalu.

[50] Amendment 26 inserts a new section into the proposed Measure, which makes provision as to the effect of determinations of the ability to pay. It requires local authorities to give effect to any determination made as to a service user's ability to pay, and makes provision as to the date from which any determination shall have effect. The current position, whereby local authorities are able to decide the date from which determination shall have effect, which may be a date before that on which the determination was made and the service user informed of the charge, will continue. However, Welsh Ministers will be able to make regulations under this section that remove that discretion and specify the date from which a determination is to have effect. I know that concerns were raised during Stage 1 scrutiny of the proposed Measure about instances of service users being charged for services that they had received before they are informed of the outcomes of their means assessment. Amendment 26 will give us the power to address that issue as necessary.

Mae gwelliant 26 yn ychwanegu adran newydd yn y Mesur arfaethedig, sy'n darparu ynglŷn ag effaith penderfyniadau yn ymwneud â'r gallu i dalu. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi effaith i unrhyw benderfyniad a wneir ynglŷn â gallu defnyddwyr gwasanaethau i dalu, ac yn darparu drwy reoliadau o ba ddyddiad y mae penderfyniad i gael effaith. Bydd y sefyllfa bresennol, lle gall awdurdodau lleol benderfynu o ba ddyddiad y caiff penderfyniad effaith, a allai fod yn ddyddiad cyn y dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad arno ac yr hysbyswyd y defnyddiwr gwasanaethau o'r ffi, yn parhau. Fodd bynnag, bydd Gweinidogion Cymru'n gallu gwneud rheoliadau o dan yr adran hon i ddileu'r disgresiwn hwnnw ac i bennu o ba ddyddiad y daw penderfyniad i rym. Gwn i bryderon gael eu codi yn ystod y craffu Cyfnod 1 ar y Mesur arfaethedig ynglŷn ag achosion lle codwyd ffi ar ddefnyddwyr gwasanaethau am wasanaethau yr oeddent wedi'u derbyn cyn iddynt gael eu hysbysu am ganlyniadau eu hasesiad modd. Bydd gwelliant 26 yn rhoi'r pŵer inni i fynd i'r afael â'r mater hwnnw fel sy'n ofynnol.

[51] Amendment 27 inserts a new section into the proposed Measure that enables a local authority to replace an existing determination as to the ability to pay with a new determination. This new provision is required to ensure that, where, for example, there is a change in circumstances, a local authority is able to undertake a further determination as to a service user's ability to pay and to impose a new charge. Without that provision, a local authority would not be able to alter its charge where, for example, the service user's finances changed, or there was a change in the cost of the service provision.

Mae gwelliant 27 yn ychwanegu adran newydd at y Mesur arfaethedig sy'n galluogi awdurdod lleol i ddisodli penderfyniad presennol ynglŷn â'r gallu i dalu gyda phenderfyniad newydd. Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn ofynnol i sicrhau, lle bu newid mewn amgylchiadau, er enghraifft, fod awdurdod lleol yn gallu gwneud penderfyniad pellach ynglŷn â gallu defnyddiwr gwasanaethau i dalu a phennu ffi newydd. Heb y ddarpariaeth honno, ni allai awdurdod lleol newid ei ffi, er enghraifft, lle mae sefyllfa ariannol y defnyddiwr gwasanaethau wedi newid, neu lle bu newid yng nghost y ddarpariaeth gwasanaethau.

12.40 p.m.

[52] The remaining amendments in this group are consequential and largely technical in nature. Amendment 20 provides that certain sections of the proposed Measure will not apply to services or persons that are excluded from charging under section 3. These sections deal with means assessment, as introduced by amendments 22 to 27; the provision of information, section 5; reviews of charging decisions, section 6; and direct payments as introduced by amendment 42. Where a person or a service is excluded from charging under section 3, the sections will not be relevant, as no charge will be imposed. It is appropriate, therefore, that these sections should be disappled.

[53] Amendments 4, 30 and 37 are consequential upon amendments 21 to 27. Amendments 29, 35, and 36 are drafting improvements, utilising the new definition of 'standard charge' found in subsection 4 of amendment 25. A standard charge is the amount that a person would be required to pay for a service if no determination under the proposed Measure as to the person's ability to pay had effect. Amendment 55 is consequential upon amendments 21 to 27 and amendment 42. The proposed amendment will ensure that the references to specific sections of the proposed Measure that are inserted into Schedule 1 to the Local Authority Social Services Act 1970 by virtue of section 9 are to correct provisions of the amended proposed Measure.

[54] **Mark Isherwood:** Do any Members wish to speak to group 3? I see that no-one does. Deputy Minister, do you wish to proceed to a vote on amendment 4?

[55] **Gwenda Thomas:** Yes, please.

[56] **Mark Isherwood:** The question is that amendment 4 be agreed to. I call for a vote.

Canlyniadol yw gweddill y gwelliannau yn y grŵp hwn ac maent yn dechnegol eu natur gan mwyaf. Yn ôl gwelliant 20 ni fydd rhai adrannau o'r Mesur arfaethedig yn gymwys i wasanaethau neu bersonau sy'n cael eu heithrio rhag ffioedd o dan adran 3. Mae'r adrannau hyn yn delio ag asesiad modd, fel y'i cyflwynir gan welliannau 22 i 27; darparu gwybodaeth, adran 5; adolygiadau o benderfyniadau codi ffioedd, adran 6; a thaliadau uniongyrchol fel y'u cyflwynir gan welliant 42. Lle mae person neu wasanaeth yn cael ei eithrio rhag ffioedd o dan adran 3, ni fydd yr adrannau hyn yn berthnasol, gan na fydd ffi yn cael ei chodi. Mae'n briodol, felly, i'r adrannau hyn gael eu datgymhwyso.

Mae gwelliannau 4, 30 a 37 yn dilyn o welliannau 21 i 27. Gwelliannau drafftio yw gwelliannau 29, 35, a 36, yn defnyddio'r diffiniad newydd o 'ffi safonol' a geir yn is-adran 4 o welliant 25. Ffi safonol yw'r swm y byddai gofyn i berson ei dalu am wasanaeth os nad oedd effaith i benderfyniad o dan y Mesur arfaethedig ynglŷn â gallu'r person i dalu. Mae gwelliant 55 yn dilyn o welliannau 21 i 27 a gwelliant 42. Bydd y gwelliant arfaethedig yn sicrhau mai cywiro darpariaethau'r Mesur arfaethedig diwygiedig y bydd y cyfeiriadau at adrannau penodol o'r Mesur arfaethedig a ychwanegir at Atodlen 1 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 yn rhinwedd adran 9.

Mark Isherwood: A oes unrhyw Aelodau am siarad am grŵp 3? Gwelaf nad oes. Ddirprwy Weinidog, a ydych am symud i bleidlais ar welliant 4?

Gwenda Thomas: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

Mark Isherwood: Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 4. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 4: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 4: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
 Davies, Alun
 Griffiths, Lesley
 Millar, Darren
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 4.
 Amendment 4 agreed.*

[57] **Mark Isherwood:** There will be no vote on the other amendments in this group at this point. We will return to vote on these later in proceedings in accordance with the marshalled list.

Mark Isherwood: Ni fydd pleidlais ar y gwelliannau eraill yn y grŵp hwn ar hyn o bryd. Down yn ôl i bleidleisio ar y rhain yn ddiweddarach yn y trafodion yn unol â'r rhestr wedi'i didoli.

12.42 p.m.

Dyletswyddau Gweinidogion Cymru mewn Perthynas â Rheoliadau (Gwelliannau 62 a 67)

Welsh Ministers' Duties in Relation to Regulations (Amendments 62 and 67)

*Derbyniwyd gwelliant 20.
Amendment 20 agreed.*

[138] **Mark Isherwood:** Mick, would you like to move amendment 70? **Mark Isherwood:** Mick, a ydych am gynnig gwelliant 70?

[139] **Mick Bates:** I move amendment 70 in my name. **Mick Bates:** Cynigiau welliant 70 yn f'enw i.

[140] **Mark Isherwood:** The question is that amendment 70 be agreed to. I call for a vote. **Mark Isherwood:** Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 70. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 70: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 70: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 70.
Amendment 70 agreed.*

[141] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, would you like amendment 21 in your name to be moved? **Mark Isherwood:** Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 21 yn eich enw gael ei gynnig?

[142] **Gwenda Thomas:** Yes. **Gwenda Thomas:** Ydyf.

[143] **Mark Isherwood:** I move amendment 21 in the name of Gwenda Thomas. I advise Members that if amendment 21 is agreed to, amendment 71 will fall. The question is that amendment 21 be agreed to. I call for a vote. **Mark Isherwood:** Cynigiau welliant 21 yn enw Gwenda Thomas. Cynghoraf yr Aelodau, os derbynnir gwelliant 21, y bydd gwelliant 71 yn methu. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 21. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 21: O blaid 3, Ymatal 0, Yn erbyn 2.
Amendment 21: For 3, Abstain 0, Against 2.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Davies, Alun

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bates, Mick

Griffiths, Lesley
Wood, Leanne

Millar, Darren

*Derbyniwyd gwelliant 21.
Amendment 21 agreed.*

[144] **Mark Isherwood:** Amendment 71 therefore falls.

Mark Isherwood: Mae gwelliant 71 yn methu felly.

*Methodd gwelliant 71.
Amendment 71 fell.*

[145] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, would you like amendment 28 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 28 yn eich enw gael ei gynnig?

[146] **Gwenda Thomas:** Yes.

Gwenda Thomas: Ydwyf.

[147] **Mark Isherwood:** I move amendment 28 in the name of Gwenda Thomas. The question is that amendment 28 be agreed to. I call for a vote.

Mark Isherwood: Cynigiau welliant 28 yn enw Gwenda Thomas. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 28. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 28: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 28: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 28.
Amendment 28 agreed.*

[148] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, would you like amendment 29 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 29 yn eich enw gael ei gynnig?

[149] **Gwenda Thomas:** Yes.

Gwenda Thomas: Ydwyf.

[150] **Mark Isherwood:** I move amendment 29 in the name of Gwenda Thomas. The question is that amendment 29 be agreed to. I call for a vote.

Mark Isherwood: Cynigiau welliant 29 yn enw Gwenda Thomas. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 29. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 29: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 29: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Davies, Alun
Bates, Mick
Griffiths, Lesley

Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 29.
Amendment 29 agreed.*

[151] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, would you like amendment 30 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 30 yn eich enw gael ei gynnig?

[152] **Gwenda Thomas:** Yes.

Gwenda Thomas: Ydwyf.

[153] **Mark Isherwood:** I move amendment 30 in the name of Gwenda Thomas. The question is that amendment 30 be agreed to. I call for a vote.

Mark Isherwood: Cynigiau welliant 30 yn enw Gwenda Thomas. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 30. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 30: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 30: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 30.
Amendment 30 agreed.*

1.10 p.m.

**Gwybodaeth am Ffioedd (Gwelliannau 74, 72, 73, 64, 75 a 63)
Information about Charges (Amendments 74, 72, 73, 64, 75 and 63)**

[154] **Mark Isherwood:** The lead amendment in this group is amendment 74. I call on Mick Bates to move amendment 74 and to speak to the other amendments in the group.

Mark Isherwood: Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 74. Galwaf ar Mick Bates i gynnig gwelliant 74 ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

[155] **Mick Bates:** I move amendment 74 in my name.

Mick Bates: Cynigiau welliant 74 yn f'enw i.

[156] These amendments relate to the way in which service users receive information about the cost to them of the services that they receive. It is absolutely essential that people in receipt of the services that would be affected by this proposed Measure and, indeed, services more generally, should be entitled to have that information in formats that are accessible and easily available.

Mae a wnelo'r gwelliannau hyn â'r ffordd y mae defnyddwyr gwasanaethau yn cael gwybodaeth am gost y gwasanaethau a gânt iddynt hwy. Mae'n gwbl hanfodol fod gan y bobl sy'n derbyn y gwasanaethau y byddai'r Mesur arfaethedig hwn yn effeithio arnynt ac, yn wir, wasanaethau yn fwy cyffredinol, hawl i gael y wybodaeth honno mewn fformatau hygyrch, sydd ar gael yn hawdd.

[157] My amendments and amendment 64

Mae fy ngwelliannau i a gwelliant 64 gan

from Darren Millar place the requirement to have the information in an accessible format on the face of the proposed Measure. This reflects the recommendation of the Stage 1 committee report and will ensure that people receiving care who have a higher rate of disability than the population at large understand exactly what they are entitled to, which is vital in order to ensure that the system is fair.

[158] These need to be embedded on the face of the proposed Measure to ensure that this information is available from day one of the proposed Measure being enacted. However, it is not intended to limit how the information should be presented, but to provide a basis for social care providers to ensure that this information is accessible to all.

[159] I support Darren Millar's amendment, amendment 64, which will ensure that this information is made available to service users in advance of the charges being made and reflecting the concerns raised by some bodies in the evidence gathering at Stage 1.

[160] **Mark Isherwood:** Thank you. Do any other Members wish to speak?

[161] **Darren Millar:** Amendment 64, in a similar fashion to the amendments in this group tabled by Mick Bates, deals with the clarity of the information provided to service users. Amendment 63, in contrast, seeks to ensure that service users are not levied with charges that are backdated as a result of a late financial assessment. A number of stakeholders, such as the National Autistic Society Cymru and the Domiciliary Care Association Wales have expressed concern about the retrospective levying of charges where service users very often have to wait for a number of weeks and are in receipt of what can be comprehensive service packages at significant cost to them. They can suddenly find themselves faced with a large bill following financial assessment. Amendment 63 is an attempt to deal with that, so that no charges can be backdated unreasonably, with service users having to face large bills. It was an issue on which there was consensus and unanimous support at Stage 1. I trust,

Darren Millar yn rhoi'r gofyniad i gael y wybodaeth mewn ffurf hygyrch ar wyneb y Mesur arfaethedig. Mae hyn yn adlewyrchu argymhelliaid yr adroddiad pwyllgor Cyfnod 1 a bydd yn sicrhau bod pobl sy'n cael gofal, sydd â chyfran uwch o anabledd na'r boblogaeth yn gyffredinol, yn deall beth yn union y mae ganddynt hawl iddo, sy'n hanfodol i sicrhau bod y system yn deg.

Mae angen sefydlu'r rhain ar wyneb y Mesur arfaethedig i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael o'r diwrnod cyntaf ar ôl i'r Mesur arfaethedig ddod yn ddeddf. Fodd bynnag, nid yw wedi'i fwriadu i gyfyngu ar faint o wybodaeth y dylid ei chyflwyno, ond i ddarparu sylfaen i ddarparwyr gofal cymdeithasol i sicrhau bod y wybodaeth hon yn hygyrch i bawb.

Cefnogaf welliant Darren Millar, gwelliant 64, a fydd yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau cyn i'r ffioedd gael eu codi. Mae'n adlewyrchu'r pryderon a godwyd gan rai cyrff tra oedd tystiolaeth yn cael ei chasglu yng Nghyfnod 1.

Mark Isherwood: Diolch. A oes Aelodau eraill am siarad?

Darren Millar: Mae gwelliant 64, yn debyg i'r gwelliannau yn y grŵp hwn a gyflwynwyd gan Mick Bates, yn delio ag eglurder y wybodaeth sy'n cael ei darparu i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae gwelliant 63, mewn cyferbyniad, yn ceisio sicrhau nad oes ffioedd wedi'u hôl-ddyddio yn cael eu codi ar ddefnyddwyr gwasanaethau o ganlyniad i asesiad ariannol hwyr. Mae nifer o randdeiliaid, fel Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru a Chymdeithas Sefydliadau Gofal Cartref Cymru, wedi mynegi pryder ynglŷn â chodi taliadau yn ôl-weithredol lle mae defnyddwyr gwasanaethau yn aml iawn yn gorfod disgwyl nifer o wythnosau ac yn cael yr hyn sy'n gallu bod yn becynnau gwasanaeth cynhwysfawr am gost sylweddol iddynt. Gallant ganfod eu hunain yn sydyn yn wynebu bil mawr yn dilyn asesiad ariannol. Ymgais yw gwelliant 63 i ddelio â hynny, fel na cheir ôl-ddyddio unrhyw ffioedd yn afresymol, gyda defnyddwyr gwasanaethau'n gorfod wynebu

therefore, that all Members of the committee will support it.

[162] **Mark Isherwood:** Thank you. I call on the Deputy Minister.

[163] **Gwenda Thomas:** While I appreciate the need to ensure that arrangements for the provision of information in relation to charging are adequate, I do not believe that these amendments are appropriate or necessary. Sections 5(1) to 5(3) place a clear duty on local authorities to provide service users and prospective service users with general information about the authority's charging policy. The provisions require local authorities to provide this information in a range of accessible formats, including in writing.

[164] Amendment 74 requires the information to be provided in plain language. Amendments 72 and 73 require the information to be provided in person and in easy to read formats. I am sure that all public bodies appreciate the importance of providing clear and accurate information, but I do not think that this amendment is the best way of addressing this. In this context, I do not believe that the additional words clarify or strengthen the nature of the duty to provide accessible information. The existing provision already provides that information must be provided in writing and in a range of accessible formats.

[165] Likewise, with regard to amendments 64 and 75, I do not believe that these add to or strengthen the existing provision, and I believe, therefore, that they are unnecessary. Section 5(4) places a clear duty on local authorities to provide service users with specific information in writing, and in any other accessible format that that person may reasonably request. Thus where a service user reasonably requests information to be provided in a specific format, local authorities will be under an obligation to provide the information in that format. In other words, local authorities will need to look at the requirements of each individual

biliau mawr. Roedd yn fater yr oedd consensws arno a chefnogaeth unfrydol yng Nghyfnod 1. Hyderaf, felly, y gwnaiff holl Aelodau'r pwyllgor yn ei gefnogi.

Mark Isherwood: Diolch. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog.

Gwenda Thomas: Er fy mod yn gwerthfawrogi'r angen i sicrhau bod y trefniadau i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â chodi ffioedd yn ddigonol, ni chredaf fod y gwelliannau hyn yn briodol nac yn angenrheidiol. Mae adrannau 5(1) i 5(3) yn rhoi dyletswydd glir ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth gyffredinol i ddefnyddwyr gwasanaethau a darpar ddefnyddwyr gwasanaethau ynglŷn â pholisi codi ffioedd yr awdurdod. Mae'r darpariaethau'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ddarparu'r wybodaeth hon mewn amryw o fformatau hygyrch, yn cynnwys yn ysgrifenedig.

Mae gwelliant 74 yn ei gwneud yn ofynnol darparu'r wybodaeth mewn iaith glir. Mae gwelliannau 72 a 73 yn ei gwneud yn ofynnol darparu'r wybodaeth yn bersonol ac mewn fformatau hawdd eu darllen. Yr wyf yn siŵr fod pob corff cyhoeddus yn gwerthfawrogi pwysigrwydd darparu gwybodaeth glir a chywir, ond ni chredaf mai'r gwelliant hwn yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â hyn. Yn y cyd-destun hwn, ni chredaf fod y geiriau ychwanegol yn egluro nac yn cryfhau natur y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth hygyrch. Yn ôl y ddarpariaeth bresennol mae eisoes yn ofynnol darparu gwybodaeth yn ysgrifenedig ac mewn amryw o fformatau hygyrch.

Yn yr un modd, o ran gwelliannau 64 a 75, ni chredaf fod y rhain yn ychwanegu at y ddarpariaeth bresennol nac yn ei chryfhau, a chredaf, felly, eu bod yn ddianghenraid. Mae adran 5(4) yn rhoi dyletswydd glir ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth benodol i ddefnyddwyr gwasanaethau yn ysgrifenedig, ac mewn unrhyw fformat hygyrch arall y gallai'r person hwnnw ofyn amdano'n rhesymol. Felly, lle mae'r defnyddiwr gwasanaethau yn rhesymol yn gofyn am i wybodaeth gael ei darparu mewn fformat penodol, bydd awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i ddarparu'r wybodaeth yn y fformat hwnnw. Mewn geiriau eraill, bydd

person and the needs of that person in the way that the information would best be relayed to them. I accept the need to ensure that service users are provided with information about their charges in a format that is accessible to them, but I believe that the existing provision ensures that and that the proposed amendment is not necessary.

[166] In relation to amendment 63, in certain cases it will be necessary for a local authority to start to provide services before the charge for these has been calculated, particularly where services are required urgently before a means assessment can be carried out. I am sure that, like me, Members have seen such situations arise in their roles as AMs. One such situation was where a person with profound disabilities was cared for at home, without the use of non-residential services. The incident sticks in my mind because the carer concerned was taken out of that situation following a heart attack. I do believe that that would be an example of an urgent situation and that services would need to be put in place on that day. That is an example of what I mean by 'urgent situations arising'. In such cases and where, following a means assessment, it is decided that a person should pay towards their care, I do not agree that this payment should be limited to future services. I believe that I am dealing with two issues there: the urgency with which services are made available, and linking that to the needs for a means test and to provide information.

[167] We must remember that in order to undertake a means assessment, full financial information must be obtained and assessed, and the speed of the assessment process will depend on both the local authority and the service user acting in a timely manner. I accept that this is important and that it is important to avoid undue delay between service delivery and the notification of a proposed charge. I agree that the means test should be undertaken as quickly as possible. That is why I have brought forward Government amendments to section 4, to include in the proposed Measure more detailed provisions about the means assessment process. These provisions include

angen i awdurdodau lleol edrych ar ofynion pob person unigol ac anghenion y person hwnnw o ran y ffordd orau o gyfleu'r wybodaeth iddynt. Yr wyf yn derbyn yr angen i sicrhau bod gwybodaeth am eu ffioedd yn cael ei rhoi i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn fformat sy'n hygyrch iddynt hwy, ond credaf fod y ddarpariaeth bresennol yn sicrhau hynny ac nad yw'r gwelliant arfaethedig yn angenrheidiol.

O ran gwelliant 63, mewn rhai achosion bydd rhaid i awdurdod lleol ddechrau darparu gwasanaethau cyn i'r ffi am y rhain gael ei chyfrifo, yn enwedig lle mae angen gwasanaethau ar frys cyn y bydd modd cynnal asesiad modd. Yr wyf yn siŵr y bydd yr Aelodau, fel minnau, wedi gweld sefyllfaoedd o'r fath yn codi yn eu rôl fel AC. Un sefyllfa o'r fath oedd lle'r oedd person ag anableddau dwys yn cael gofal gartref, heb ddefnyddio gwasanaethau dibreswyl. Mae'r digwyddiad yn aros yn fy nghof oherwydd i'r gofalwr gael ei dynnu o'r sefyllfa honno yn dilyn trawiad ar y galon. Credaf fod hynny'n esiampl o sefyllfa frys ac y byddai angen sefydlu gwasanaethau y diwrnod hwnnw. Mae hyn yn enghraifft o'r hyn a olygaf gan 'sefyllfaoedd brys yn codi'. Mewn achosion felly a lle penderfynir, yn dilyn asesiad modd, y dylai person dalu tuag at ei ofal, nid wyf yn cytuno y dylai'r taliad hwn gael ei gyfyngu i wasanaethau yn y dyfodol. Credaf fy mod yn delio â dau fater yma: ar faint o frys y darperir gwasanaethau, a chysylltu hynny â'r angen am brawf modd ac â darparu gwybodaeth.

Er mwyn cynnal asesiad modd, rhaid inni gofio bod rhaid cael gafael ar wybodaeth ariannol lawn a'i hasesu, a bydd cyflymder y broses asesu yn ddibynnol ar i'r awdurdod lleol a'r defnyddiwr gwasanaethau weithredu'n brydlon. Yr wyf yn derbyn bod hyn yn bwysig a'i bod yn bwysig osgoi oedi gormodol rhwng cyflenwi gwasanaethau a rhoi gwybod am ffi arfaethedig. Cytunaf y dylid ymgymryd â'r prawf modd cyn gyflymed â phosibl. Dyna pam yr wyf wedi cyflwyno gwelliannau Llywodraeth i adran 4, i gynnwys yn y Mesur arfaethedig ddarpariaethau mwy manwl ynglŷn â'r broses asesu modd. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol i

an obligation on local authorities to issue an invite to request a means assessment in a timely manner and to undertake a means assessment in accordance with such regulations as may be made under the proposed Measure.

[168] In answer to your question, Darren, about the rights of the service user to know what the charges will be before the service is put in place, the proposed new sections—these are new to section 4, and I think that, because of committee scrutiny, they are an improvement—also make provision concerning the date from which a determination of a charge shall have effect. The current position, whereby local authorities are able to decide the date from which determination shall have effect, will continue. However, Welsh Ministers will be able to make regulations under the proposed Measure to remove this discretion and specify the date from which a determination shall have effect. This is so as to address the concerns that have been raised about instances of service users being charged for services before they have been informed of the outcome of their means assessment. This amendment will give us the power to address that issue as necessary.

1.20 p.m.

[169] **Mick Bates:** I welcome the Deputy Minister's knowledge of the subject and the need for extra information to be provided. The critical point from the evidence that we received at Stage 1 was that the vulnerability of most people means that there needs to be a recognition that the best way for information to be imparted is in person. There were deep concerns in Stage 1 about the whole process and the receipt of information in respect of charging. We feel that these amendments on the face of the proposed Measure would address that. I hear what the Deputy Minister is saying about some aspects of this, but these amendments have the power to give confidence to people that their rights are on the face of the proposed Measure, so that they will always be able to have that information from a person. The circumstances that we heard about mean that it is often not sufficient to send the

roi gwahoddiad i ofyn am asesiad modd yn brydlon ac i ymgymryd ag asesiad modd yn unol â'r cyfryw reoliadau ag a wneir o dan y Mesur arfaethedig.

Mewn ateb i'ch cwestiwn, Darren, ynglŷn â hawliau'r defnyddiwr gwasanaethau i wybod beth fydd y ffioedd cyn i'r gwasanaeth gael ei roi ar waith, mae'r adrannau newydd arfaethedig—mae'r rhain yn newydd i adran 4, a chredaf, oherwydd y craffu gan y pwyllgor, eu bod yn welliant—hefyd yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag o ba ddyddiad y bydd penderfyniad ynglŷn â ffioedd yn dod i rym. Bydd y sefyllfa sy'n bodoli ar hyn o bryd, lle gall awdurdodau lleol benderfynu o ba ddyddiad y daw penderfyniad i rym, yn parhau. Fodd bynnag, gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan y Mesur arfaethedig i gael gwared â'r disgresiwn hwn ac i bennu ar ba ddyddiad y bydd penderfyniad yn dod i rym. Mae hyn er mwyn rhoi sylw i'r pryderon a godwyd ynglŷn ag achosion lle mae ffioedd wedi cael eu codi ar ddefnyddwyr gwasanaethau cyn iddynt gael eu hysbysu o ganlyniad eu hasesiad modd. Bydd y gwelliant hwn yn rhoi'r pŵer inni i roi sylw i'r mater hwnnw fel sy'n angenrheidiol.

Mick Bates: Croesawaf wybodaeth y Dirprwy Weinidog o'r pwnc a'r angen am i wybodaeth ychwanegol gael ei darparu. Y pwynt tyngedfennol o'r dystiolaeth a gawsom yng Nghyfnod 1 oedd fod breguster y rhan fwyaf o bobl yn golygu bod angen cydnabod mai'r ffordd orau o ddarparu gwybodaeth yw yn bersonol. Yr oedd pryderon dwfn iawn yng Nghyfnod 1 ynglŷn â'r holl broses ac am gael gwybodaeth ynglŷn â chodi ffioedd. Teimlwn y byddai'r gwelliannau hyn ar wyneb y Mesur arfaethedig yn ymdrin â hynny. Clywaf yr hyn y mae'r Dirprwy Weinidog yn ei ddweud am rai agweddau o hyn, ond mae gan y gwelliannau hyn y grym i roi ffydd i bobl fod eu hawliau ar wyneb y Mesur arfaethedig, fel y byddant bob amser yn gallu cael y wybodaeth honno gan berson. Mae'r amgylchiadau y clywsom amdanynt yn golygu nad yw yn aml yn ddigon anfon y wybodaeth. Yr wyf yn deall yr hyn a

information. I understand what you said about an urgent case, Deputy Minister—you gave an example from your experience about a carer having a heart attack—but, as far as we can see, these particular amendments would not delay any necessary re-provision of services to the individual concerned. We feel that the evidence gathered and Members' support for this concept at Stage 1 makes these amendments essential to cover the rights of service users. You previously made reference, Deputy Minister, to the rights of service users, particularly under equality laws. We feel that those rights would be enhanced by these particular amendments.

[170] Therefore, I wish to proceed to a vote on amendment 74.

[171] **Mark Isherwood:** The question is that amendment 74 be agreed to. I call for a vote.

ddywedasocho am achos brys, Ddirprwy Weinidog—rhoddasocho enghraifft o'ch profiad chi am ofalwr yn cael trawiad ar y galon—ond, cyn belled ag y gallwn weld, ni fyddai'r gwelliannau neilltuol hyn yn achosi oedi o ran aildrefnu angenrheidiol ar wasanaethau ar gyfer yr unigolyn dan sylw. Teimlwn fod y dystiolaeth a gasglwyd a chefnogaeth yr Aelodau i'r cysyniad hwn yng Nghyfnod 1 yn gwneud y gwelliannau hyn yn hanfodol i gwmpasu hawliau defnyddwyr gwasanaethau. Cyfeiriasoch cyn hyn, Ddirprwy Weinidog, at hawliau defnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig o dan ddeddfau cydraddoldeb. Teimlwn y câi'r hawliau hynny eu gwella gan y gwelliannau neilltuol hyn.

Felly, hoffwn symud i bleidlais ar welliant 74.

Mark Isherwood: Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 74. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 74: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Amendment 74: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Millar, Darren

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 74.
Amendment 74 not agreed.*

[172] **Mark Isherwood:** At this point, I call a five minute break for Members before we move to the final session. We have two remaining groups of amendments to debate, and we then have to vote on all remaining amendments. Could we please be back in our seats by 1.30 p.m.? Thank you.

Mark Isherwood: Yn y fan hon, galwaf am egwyl o bum munud i'r Aelodau cyn inni symud i'r sesiwn terfynol. Mae gennym ddau grŵp o welliannau ar ôl i'w trafod, yna rhaid inni bleidleisio ar yr holl welliannau sy'n weddill. A wnewch chi'n siŵr ein bod yn ôl yn ein seddau erbyn 1.30 p.m.? Diolch.

*Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 1.23 p.m. ac 1.30 p.m.
The meeting adjourned between 1.23 p.m. and 1.30 p.m.*

[173] **Mark Isherwood:** We return into formal session for the second and final part of today's committee proceedings. In accordance with the marshalled list, we now proceed to dispose of amendments 72, 73, 31, 32, 33, 64, 75, 34, 35, 36, 37, 63 and 38. I invite Mick to move amendment 72.

Mark Isherwood: Dychwelwn i sesiwn ffurfiol ar gyfer ail ran a rhan derfynol trafodion y pwyllgor heddiw. Yn unol â'r rhestr wedi'i didoli, awn ati yn awr i waredu gwelliannau 72, 73, 31, 32, 33, 64, 75, 34, 35, 36, 37, 63 a 38. Gwahoddaf Mick i gynnig gwelliant 72.

- [174] **Mick Bates:** I move amendment 72 in my name. **Mick Bates:** Cynigiaf welliant 72 yn f'enw i.
- [175] **Mark Isherwood:** The question is that amendment 72 be agreed to. I call for a vote and ask you to raise your hands if you support amendment 72— **Mark Isherwood:** Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 72. Galwaf am bleidlais a gofynnaf ichi godi'ch dwylo os ydych yn cefnogi gwelliant 72—
- [176] **Alun Davies:** On a point of order, Chair, before you call this vote, should we not wait until all the committee members have returned? You asked for a break, and not all the committee members have returned. **Alun Davies:** Ar bwynt o drefn, Gadeirydd, cyn ichi alw'r bleidlais hon, oni ddylem ddisgwyl nes bydd aelodau'r pwyllgor i gyd wedi dychwelyd? Gofynasoch am egwyl, ac nid yw holl aelodau'r pwyllgor wedi dychwelyd.
- [177] **Mick Bates:** I understand what my colleague is saying, Chair, but you said that the committee meeting would resume at 1.30 p.m. I watched the clock, and you resumed the committee meeting at 1.30 p.m. **Mick Bates:** Yr wyf yn deall yr hyn y mae fy nghyd-Aelod yn ei ddweud, Gadeirydd, ond dywedasoch y byddai cyfarfod y pwyllgor yn ailgychwyn am 1.30 p.m. Gwyliais y cloc, ac ailddechreusoch gyfarfod y pwyllgor am 1.30 p.m.
- [178] **Mark Isherwood:** That is my understanding; we are quorate. Had Members asked me to send out a call for Members prior to that, we could have done so. I am in accordance with the rules. We move to vote on amendment 72. **Mark Isherwood:** Dyna fy nealltwriaeth i; mae gennym gworwm. Pe bai'r Aelodau wedi gofyn imi anfon galwad allan am Aelodau cyn hynny, gallasem fod wedi gwneud hynny. Yr wyf yn unol â'r rheolau. Symudwn i bleidlais ar welliant 72.
- [179] **Alun Davies:** Before we do that, Chair, may I ask a question? I understand that it is up to you as Chair to ensure that Standing Orders are abided by, but I must say that it is difficult for us as members of the committee if we are forced to take a vote when some of the committee members are not in a position to register their vote here. **Alun Davies:** Cyn inni wneud hynny, Gadeirydd, a gaf fi ofyn cwestiwn? Yr wyf yn deall mai'ch cyfrifoldeb chi fel Cadeirydd yw sicrhau ein bod yn cadw at y Rheolau Sefydlog, ond rhaid imi ddweud ei bod yn anodd i ni fel aelodau o'r pwyllgor os cawn ein gorfodi i bleidleisio tra nad yw rhai o aelodau'r pwyllgor mewn sefyllfa i gofrestru eu pleidlais yma.
- [180] **Mick Bates:** Is this filibustering? **Mick Bates:** Ai ffilibystro yw hyn?
- [181] **Darren Millar:** I congratulate Alun Davies on his noble efforts, Chair. **Darren Millar:** Llongyfarchaf Alun Davies ar ei ymdrechion glew, Gadeirydd.
- [182] **Mark Isherwood:** Never have I seen the words 'filly' and 'buster' linked together so well. [*Laughter.*] **Mark Isherwood:** Nid wyf erioed wedi gweld y geiriau 'ffili' a 'bystro' yn cael eu cydgysylltu cystal. [*Chwerthin.*]
- [183] The question is that amendment 72 be agreed to. I call for a vote. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 72. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 72: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Amendment 72: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Millar, Darren

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Wood, Leanne

Gwrthodwyd gwelliant 72.
Amendment 72 not agreed.

[184] **Mark Isherwood:** Mick, do you wish to move amendment 73?

Mark Isherwood: Mick, a ydych am gynnig gwelliant 73?

[185] **Mick Bates:** I move amendment 73 in my name.

Mick Bates: Cynigiau welliant 73 yn f'enw i.

[186] **Mark Isherwood:** The question is that amendment 73 be agreed to. I call for a vote.

Mark Isherwood: Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 73. Galwaf am bleidlais.

Gwelliant 73: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Amendment 73: For 2, Abstain 0, Against 3.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Millar, Darren

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Wood, Leanne

Gwrthodwyd gwelliant 73.
Amendment 73 not agreed.

[187] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, would you like amendment 31 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 31 yn eich enw gael ei gynnig?

[188] **Gwenda Thomas:** Yes, please.

Gwenda Thomas: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

[189] **Mark Isherwood:** I therefore move amendment 31 in the name of Gwenda Thomas. The question is that amendment 31 be agreed to. I call for a vote.

Mark Isherwood: Cynigiau welliant 31 yn enw Gwenda Thomas felly. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 31 yn enw Gwenda Thomas. Galwaf am bleidlais.

Gwelliant 31: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 31: For 5, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

Derbyniwyd gwelliant 31.
Amendment 31 agreed.

[190] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, would you like amendment 32 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 32 yn eich enw gael ei gynnig?

[191] **Gwenda Thomas:** Yes, please.

Gwenda Thomas: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

[192] **Mark Isherwood:** I therefore move amendment 32 in the name of Gwenda Thomas. The question is that amendment 32 be agreed to. I call for a vote.

Mark Isherwood: Cynigiaf welliant 32 yn enw Gwenda Thomas felly. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 32 yn enw Gwenda Thomas. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 32: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 32: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 32.
Amendment 32 agreed.*

[193] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, would you like amendment 33 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 33 yn eich enw gael ei gynnig?

[194] **Gwenda Thomas:** Yes, please.

Gwenda Thomas: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

[195] **Mark Isherwood:** I therefore move amendment 33 in the name of Gwenda Thomas. The question is that amendment 33 be agreed to. I call for a vote.

Mark Isherwood: Cynigiaf welliant 33 yn enw Gwenda Thomas felly. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 33 yn enw Gwenda Thomas. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 33: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 33: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 33.
Amendment 33 agreed.*

[196] **Mark Isherwood:** Darren, would you like to move amendment 64?

Mark Isherwood: Darren, a ydych am gynnig gwelliant 64?

[197] **Darren Millar:** I move amendment 64 in my name. **Darren Millar:** Cynigiau welliant 64 yn f'enyw i.

[198] **Mark Isherwood:** The question is that amendment 64 be agreed to. I call for a vote. **Mark Isherwood:** Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 64. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 64: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Amendment 64: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Millar, Darren

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 64.
Amendment 64 not agreed.*

[199] **Mark Isherwood:** Mick, would you like to move amendment 75? **Mark Isherwood:** Mick, a ydych am gynnig gwelliant 75?

[200] **Mick Bates:** I move amendment 75 in my name. **Mick Bates:** Cynigiau welliant 75 yn f'enyw i.

[201] **Mark Isherwood:** The question is that amendment 75 be agreed to. I call for a vote. **Mark Isherwood:** Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 75. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 75: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Amendment 75: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Millar, Darren

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 75.
Amendment 75 not agreed.*

[202] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, would you like amendment 34 in your name to be moved? **Mark Isherwood:** Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 34 yn eich enw gael ei gynnig?

[203] **Gwenda Thomas:** Yes, please. **Gwenda Thomas:** Ydwyf, os gwelwch yn dda.

[204] **Mark Isherwood:** I therefore move amendment 34 in the name of Gwenda Thomas. The question is that amendment 34 be agreed to. I call for a vote. **Mark Isherwood:** Cynigiau welliant 34 yn enw Gwenda Thomas felly. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 34. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 34: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 34: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 34.
Amendment 34 agreed.*

[205] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, would you like amendment 35 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 35 yn eich enw gael ei gynnig?

[206] **Gwenda Thomas:** Yes, please.

Gwenda Thomas: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

[207] **Mark Isherwood:** I therefore move amendment 35 in the name of Gwenda Thomas. The question is that amendment 35 be agreed to. I call for a vote.

Mark Isherwood: Cynigïaf welliant 35 yn enw Gwenda Thomas felly. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 35. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 35: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 35: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 35.
Amendment 35 agreed.*

[208] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, would you like amendment 36 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 36 yn eich enw gael ei gynnig?

[209] **Gwenda Thomas:** Yes, please.

Gwenda Thomas: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

[210] **Mark Isherwood:** I therefore move amendment 36 in the name of Gwenda Thomas. The question is that amendment 36 be agreed to. I call for a vote.

Mark Isherwood: Cynigïaf welliant 36 yn enw Gwenda Thomas felly. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 36. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 36: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 36: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick

Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 36.
Amendment 36 agreed.*

[211] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, would you like amendment 37 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 37 yn eich enw gael ei gynnig?

[212] **Gwenda Thomas:** Yes, please.

Gwenda Thomas: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

[213] **Mark Isherwood:** I therefore move amendment 37 in the name of Gwenda Thomas. The question is that amendment 37 be agreed to. I call for a vote.

Mark Isherwood: Cynigiaf welliant 37 yn enw Gwenda Thomas felly. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 37. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 37: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 37: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 37.
Amendment 37 agreed.*

[214] **Mark Isherwood:** Darren, would you like to move amendment 63?

Mark Isherwood: Darren, a ydych am gynnig gwelliant 63?

[215] **Darren Millar:** I move amendment 63 in my name.

Darren Millar: Cynigiaf welliant 63 yn f'enw i.

[216] **Mark Isherwood:** The question is that amendment 63 be agreed to. I call for a vote.

Mark Isherwood: Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 63. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 63: O blaid 2, Ymatal 0, Yn erbyn 3.
Amendment 63: For 2, Abstain 0, Against 3.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Millar, Darren

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 63.
Amendment 63 not agreed.*

[217] **Mark Isherwood:** Deputy Minister, would you like amendment 38 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 38 yn eich enw gael ei gynnig?

[218] **Gwenda Thomas:** Yes, please.

Gwenda Thomas: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

[219] **Mark Isherwood:** I move amendment 38 in the name of Gwenda Thomas. The question is that amendment 38 be agreed to. I call for a vote.

Mark Isherwood: Cynigiaf welliant 38 yn enw Gwenda Thomas. Y cwestiwn yw a ydym yn derbyn gwelliant 38. Galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 38: O blaid 5, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 38: For 5, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Davies, Alun
Griffiths, Lesley
Millar, Darren
Wood, Leanne

*Derbyniwyd gwelliant 38.
Amendment 38 agreed.*

1.35 p.m.

**Adolygu Penderfyniadau ar Godi Ffioedd (Gwelliannau 39, 65, 40, 66, 41, 68 a 76)
Review of Charging Decisions (Amendments 39, 65, 40, 66, 41, 68 and 76)**

[220] **Mark Isherwood:** The lead amendment in this group is amendment 39. Deputy Minister, would you like amendment 39 in your name to be moved?

Mark Isherwood: Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 39. Ddirprwy Weinidog, a ydych am i welliant 39 yn eich enw gael ei gynnig?

[221] **Gwenda Thomas:** Yes, please.

Gwenda Thomas: Ydwyf, os gwelwch yn dda.

[222] **Mark Isherwood:** I move amendment 39 in the name of Gwenda Thomas. I call on the Deputy Minister to speak to amendment 39 and the other amendments in the group.

Mark Isherwood: Cynigiaf welliant 39 yn enw Gwenda Thomas. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i siarad am welliant 39 a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

[223] **Gwenda Thomas:** The proposed amendment 39 is primarily a drafting improvement. It makes it clear that section 6 regulations concerning reviews may include provisions conferring a right on an individual to request a review where that individual should have been provided with a section 5(4) statement, whether or not such a statement was in fact provided. It also corrects the reference to the section under

Gwenda Thomas: Gwelliant drafftio yw gwelliant 39 yn bennaf. Mae'n ei gwneud yn glir y gall rheoliadau adran 6 ynglŷn ag adolygiadau gynnwys darpariaethau sy'n rhoi hawl i unigolyn i ofyn am adolygiad lle dylai'r unigolyn hwnnw fod wedi cael datganiad adran 5(4), pa un a ddarparwyd datganiad o'r fath ai peidio mewn gwirionedd. Mae hefyd yn cywiro'r cyfeiriad at yr adran y deillia'r ddyletswydd i ddarparu

which the duty to provide a statement arises. datganiad ohoni.

[224] The proposed amendment 40 is a drafting improvement consequential upon amendment 39. Once again, it makes it clear that a right to request a review may be conferred on any individual to whom a statement of information on their charges should have been provided under section 5(4). That ensures that the non receipt of such a statement would not preclude a request for a review of a charging decision or an obligation to undertake a review.

[225] The proposed amendment 41 responds to one of the committee's Stage 1 recommendations by extending the provision that may be made under section 6(1) in relation to a review of charging decisions. It provides that regulations under section 6 may make provision as to who may request a review of a charging decision on behalf of another person.

[226] Turning now to the amendments tabled by Members. I would like to assure you that I support the principle behind amendments 65 and 66. I agree that regulations should allow decisions about charging to be subject to review, whether requests for a review is made by the service user or by another person acting on the service user's behalf. I have, therefore, brought forward Government amendment 41, which, as I have explained, provides that regulations under section 6 may make provision as to who may request a review on behalf of another person. Consequently, I do not believe that amendment 65 and the linked amendments 66 and 68 are necessary.

[227] As regards amendment 76, I do not believe that such an appeal procedure is necessary or advisable given the provision already made in this proposed Measure for the review of decisions and the existence of the local authority statutory complaints procedure. Section 6 of the proposed Measure is intended to allow for the establishment of a review process that would be common to all authorities and would be quick, easy to understand and accessible to all service users. This will allow for queries—for example, on how a charge has

Gwelliant drafftio yn dilyn o welliant 39 yw gwelliant arfaethedig 40. Eto, mae'n ei gwneud yn glir y gellir rhoi hawl i ofyn am adolygiad i unrhyw unigolyn y dylai datganiad gwybodaeth ynglŷn â'i ffioedd fod wedi cael ei ddarparu iddo o dan adran 5(4). Mae hynny'n sicrhau nad yw'r ffaith na dderbyniwyd datganiad o'r fath yn atal cais am adolygu penderfyniad codi ffioedd na dyletswydd i ymgymryd ag adolygiad.

Mae gwelliant arfaethedig 41 yn ymateb i un o argymhellion Cyfnod 1 y pwyllgor drwy ymestyn y ddarpariaeth y gellir ei gwneud o dan adran 6(1) mewn perthynas ag adolygu penderfyniadau codi ffioedd. Mae'n darparu y gall rheoliadau o dan adran 6 ddarparu ynglŷn â phwy a gaiff wneud cais am adolygu penderfyniad codi ffioedd ar ran person arall.

Trof yn awr at y gwelliannau a gyflwynwyd gan Aelodau. Hoffwn eich sicrhau fy mod yn cefnogi'r egwyddor wrth wraidd gwelliannau 65 a 66. Cytunaf y dylai rheoliadau ganiatáu i benderfyniadau codi ffioedd fod yn ddarostyngedig i adolygiad, pa un a wneir cais am adolygiad gan y defnyddiwr gwasanaethau neu gan berson arall sy'n gweithredu ar ran y defnyddiwr gwasanaethau. Yr wyf, felly, wedi dod â gwelliant 41 y Llywodraeth gerbron, sydd, fel yr wyf wedi egluro, yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 6 ddarparu ynglŷn â phwy a gaiff wneud cais am adolygiad ar ran person arall. O ganlyniad, ni chredaf fod gwelliant 65 a gwelliannau cysylltiedig 66 a 68 yn angenrheidiol.

O ran gwelliant 76, ni chredaf fod trefn apêl o'r fath yn angenrheidiol nac yn fuddiol o ystyried y ddarpariaeth sydd eisoes wedi cael ei gwneud yn y Mesur hwn ynglŷn ag adolygu penderfyniadau a bodolaeth trefn gwyno statudol yr awdurdodau lleol. Bwriedir adran 6 o'r Mesur arfaethedig i ganiatáu sefydlu proses adolygu a fyddai'n gyffredin i'r holl awdurdodau ac a fyddai'n gyflym, yn hawdd ei deall ac yn hygyrch i bob defnyddiwr gwasanaethau. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer delio ag ymholiadau—er enghraifft, ynglŷn â sut y cafodd ffi ei

been calculated or on the matters taken into account as part of the means assessment—to be dealt with in a timely and effective manner.

[228] If, having accessed this review process, a service user remains dissatisfied by their charge, they would still be able to access the authority's social services complaints procedure. This statutory procedure provides for the consideration of complaints about how a local authority discharges its social services function, which will include the discharge of local authority functions under this proposed Measure.

